

Swyddfa Cymru

Adroddiad Blynyddol 2007





Published by TSO (The Stationery Office) and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail

TSO

PO Box 29, Norwich NR3 1GN

General enquiries: 0870 600 5522

Order through the Parliamentary Hotline *Lo-call* 0845 7 023474

Fax orders: 0870 600 5533

Email: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0870 240 3701

TSO Shops

123 Kingsway, London WC2B 6PQ

020 7242 6393 Fax 020 7242 6394

16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD

028 9023 8451 Fax 028 9023 5401

71 Lothian Road, Edinburgh EH3 9AZ

0870 606 5566 Fax 0870 606 5588

TSO@Blackwell and other Accredited Agents





Adroddiad Blynyddol gan Swyddfa Cymru

Cyflwynwyd i'r Senedd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

[Mai 2007]

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o Adroddiadau Adrannol (Cm 7091 i Cm 7117) sydd, ynghyd â'r Prif Amcangyfrifon 2007-08, dogfen Dadansoddiadau Ystadegol Gwariant Cyhoeddus 2007 a'r Wybodaeth Gyllidol Atodol 2007-08, yn cyflwyno cynlluniau gwariant y Llywodraeth ar gyfer 2007-08, a data alldro cymharol am flynyddoedd blaenorol

© Hawlfraint y Goron 2007


Gellir ailgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol) am ddim, mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei ailgynhyrchu'n fanwl gywir a heb ei ddefnyddio mewn cyddestun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch yr hawlfraint yn y ddogfen hon at
The Licensing Division, HMSO, St Clements House, 2-16 Colegate, Norwich, NR3 1BQ.
Ffacs: 01603 723000 neu e-bost: licensing@cabinet-office.x.gsi.gov.uk

Rhagair

Gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Mae'r pumed adroddiad blynyddol yr wyf yn ei gyflwyno i'r Senedd fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ymdrin â blwyddyn fu'r brysuraf eto i Swyddfa Cymru gyda lefel ddiglyffelyb o ddeddfwriaeth Gymreig. Roedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a gwblhaodd ei thaith drwy'r Senedd ym mis Gorffennaf, yn darparu ar gyfer y trosglwyddiad mwyaf o rym o San Steffan i Gymru ers i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei sefydlu ym 1999.



Mae'r Ddeddf yn darparu trefniant cyfansoddiadol newydd i Gymru fydd yn para am genhedlaeth neu ragor. Drwy ganiatáu pwerau deddfwriaethol helaethach, bydd yn galluogi'r Cynulliad i ddarparu polisiau sy'n bwrpasol ar gyfer pobl Cymru.

Fel y gwelwch, mae datganoli eisoes wedi dwyn sefydlogrwydd economaidd i Gymru na welwyd ei fath o'r blaen, gyda chyflogaeth ar lefel hanesyddol uchel.

Ddeng mlynedd ar ôl y bleidlais "le" hanesyddol, ni ellir amau bod Cymru'n mynd i'r cyfeiriad iawn. Mae ysbryd y dirywiad diwydiannol, diweithdra a gwasanaethau cyhoeddus dirywiadig, fu'n bygwth Cymru drwy gydol y 1980au a'r 1990au, wedi diflannu. Yn ei le, mae gennym economi fywiog ac amrywiol, nifer fwy nag erioed o swyddi, gyda deng mlynedd o dwf parhaus na lwyddwyd i'w gael erioed o'r blaen yn ein hanes, a'r gwasanaethau cyhoeddus yn mynd o nerth i nerth.

Drwy ddull 'Tîm Cymru' gwelwyd San Steffan a Bae Caerdydd yn cydweithio mewn partneriaeth, ochr yn ochr ag awdurdodau lleol, cyflogwyr, undebau a hapddalwyr eraill. Mae'r dull hwn o Lywodraethu drwy bartneriaeth wedi caniatáu i economi Cymru gymryd camau sylweddol ymlaen, gyda llwyddiannau gwirioneddol i'w dathlu.

Mae'r cynnydd yr ydym wedi ei wneud wedi sicrhau ein bod mewn gwell cyflwr i wynebu'r heriau anferth sy'n wynebu Cymru yn y degawdau i ddod. Bydd yr hwb o £1 biliwn mewn gwariant i Gymru o Gyllideb y flwyddyn hon yn gymorth i gadarnhau'r cynnydd hwn.

Roedd y cyhoeddiad ym mis Ionawr mai Sain Tathan ym Mro Morgannwg fyddai safle Academi Hyfforddi Amddiffyn Fodern y Weinidogaeth Amddiffyn – buddsoddiad enfawr o £16bn fydd yn dod â rhyw 5,500 o swyddi i Gymru – yn dystiolaeth rymus i ba mor llwyddiannus y bu'r economi Gymreig wrth ailosod ei hun er mwyn ateb heriau'r dyfodol.

Mae datganoli wedi bod o gymorth i ryddhau potensial Cymru ac wedi dwyn gwelliant gwirioneddol i fywydau pobl. Â Deddf Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfnod newydd ar gyfer datganoli yng Nghymru, megis dechrau yn unig y mae'r stori llwyddiannus hon.

Yr wyf yn ymfalchïo yn y ffaith y bydd Swyddfa Cymru yn dal i chwarae rhan allweddol i sicrhau y bydd y newidiadau hyn i'r trefniant datganoli yn cael eu gweithredu'n rhwydd ac yn effeithiol er lles yr holl bobl yng Nghymru.

Y Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS




1.	Pwy ydym ni a'r hyn yr ydym yn ei wneud	7
1.1	Cyfrifoldebau'r Gweinidogion	8
1.2	Llwyddiannau Allweddol 2006-07	9
1.3	Gwaith Gweinidogion Swyddfa Cymru	9
1.4	Cyfrifoldebau Adrannol	10
2.	Cyfansoddiad a Deddfwriaeth	13
2.1	Fframwaith Cyfansoddiadol Cymru	14
2.2	Deddf Llywodraeth Cymru 2006	14
2.3	Is-ddeddfwriaeth Bellach	14
2.4	Darpariaeth Ddeddfwriaethol yng Nghymru	15
2.5	Deddfwriaeth ar gyfer Cymru yn y Dyfodol	16
2.6	Rhaglen Hyfforddi Whitehall	18
2.7	Nodiadau Esboniadol ar Ddatganoli	18
2.8	Adran Ddeddfwriaeth Gwefan Swyddfa Cymru	18
3.	Pleidio Achos Cymru	19
4.	Amcanion a Chyflawni	25
4.1	Nodau	26
4.2	Amcanion	26
4.3	Edrych yn ôl: Yr hyn a Gyflawnwyd yn erbyn yr Amcanion yn 2006-07	27
4.4	Cynnydd yn erbyn Targedau	29
5.	Moderneiddio'r Llywodraeth	31
5.1	Cytundebau Lefel Gwasanaeth	32
5.2	Heriau Swyddfa Cymru	32
5.3	Defnydd Effeithlon o'r Adnoddau	34
5.4	Moderneiddio'r Llywodraeth a Diwygio'r Gwasanaeth Sifil	34
5.5	Llywodraeth yn yr Oes Wybodaeth	34
5.6	Penodiadau Cyhoeddus	34
5.7	Yr Iaith Gymraeg	34
5.8	Recriwtio Staff Swyddfa Cymru	35
5.9	Niferoedd Staff	35
5.10	Polisiau Cyfle Cyfartal Swyddfa Cymru	35
5.11	Llywodraeth Gorfforaethol Swyddfa Cymru	36

6.	Gwariant y Llywodraeth yng Nghymru	37
6.1	Cyllido Cynulliad Cenedlaethol Cymru	38
6.2	Cyfanswm y Gwariant Cyhoeddus Canfyddadwy yng Nghymru	38
6.3	Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan	39
6.4	Cyllideb y Cynulliad	39
6.5	Cyllideb 2007	39
6.6	Gwariant gan Swyddfa Cymru	39
6.7	Newidiadau i Uchafswm Gwariant Adrannol Cymru am 2003-04 i 2007-08 ers PESA 2004	39
Atodiadau		41
Atodiad 1	ADeddfau gyda darpariaethau neu oblygiadau penodol ar gyfer Cymru yn Sesiwn 2005-06	43
Atodiad 2	Mesurau a Deddfau gyda darpariaethau neu oblygiadau penodol ar gyfer Cymru yn Sesiwn 2006-07	46
Atodiad 3	Newidiadau i Uchafswm Gwariant Adrannol Cymru am 2004-05 i 2007-08 ers PESA 2005	48
Atodiad 4	Uchafswm Gwariant Adrannol – Cymru	49
Atodiad 5	Y Grant Taladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am 2006-07: Darpariaethau Gwreiddiol a Therfynol	50
Atodiad 6	Y Grant Taladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am 2006-07: Darpariaeth Wreiddiol a Therfynol	51
Atodiad 7	Cysoniad y Grant Taladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda Chyfanswm y Gwariant a Reolir ar gyfer Cymru 2007-08	52
Atodiad 8	Cyflogau Uwch y Gwasanaeth Sifil	53
Atodiad 9	Nodyn o Eglurhad	54



SWYDDFA CYMRU




Pennod 1

Pwy ydym ni a'r hyn yr
ydym yn ei wneud

Pennod 1: Pwy ydym ni a'r hyn yr ydym yn ei wneud

1.1 Cyfrifoldebau'r Gweinidogion



Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Y Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS

- Y cyfeiriad strategol cyffredinol, cyswllt â'r Cynulliad, materion Cyfansoddiadol, pwerau Deddf Llywodraeth Cymru (yn cynnwys etholiadau'r Cynulliad), Cyllid, Ewrop, Datblygiad Economaidd, Penodiadau Cyhoeddus, yr Amgylchedd a'r Dreftadaeth Gymreig.



Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol

Nick Ainger AS

- Datblygiad Rhanbarthol, Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai, Iechyd, Addysg a Hyfforddiant, Cludiant, Amaethyddiaeth, Llywodraeth mewn Oes Wybodaeth, Llywodraeth Leol, Atal Troseddau, materion Merched a materion Gwyrdd

- Mae'r ddau weinidog hefyd yn monitro polisiau'r Cynulliad er mwyn sicrhau bod cysylltiad rhwng y partion priodol sydd â diddordeb.
- Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn aelod o'r Cabinet, sy'n siarad dros ddiddordebau Cymreig mewn deddfwriaeth ac yn y meysydd hynny sy'n aros yn gyfrifoldeb Senedd y D.U.



Yr Arglwydd Evans o Temple Guiting, llefarydd yn Nhŷ'r Arglwyddi



Y Farwnes Morgan o Drefelin, llefarydd yn Nhŷ'r Arglwyddi



Huw Irranca-Davies AS Chwip y Llywodraeth gyda chyfrifoldebau dros ASau Cymru

1.2 Llwyddiannau Allweddol 2006-07

■ Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 25 Gorffennaf 2006. Mae'n darparu ar gyfer cynyddu pwerau deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Y Cynulliad); mae'n rhoi terfyn ar statws corfforaethol dryslyd y Cynulliad; mae'n newid y system etholiadol ar gyfer y Cynulliad; mae'n darparu mecanwaith refferendwm ar gyfer datganoli pwerau pellach.

■ Deddf Comisiynydd ar gyfer Pobl Hŷn (Cymru) 2006

Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 25 Gorffennaf 2006. Mae'n sefydlu Comisiynydd gyda'r ddyletswydd i hybu a diogelu diddordebau pobl hŷn yng Nghymru.

■ Darpariaethau mewn perthynas â Chymru ac ysmegu mewn manau cyhoeddus yn Neddf Iechyd 2006

Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 19 Gorffennaf 2006. Mae'n rhoi bwerau i'r Cynulliad i weithredu ei bolisi ei hun ar wahardd ysmegu mewn manau cyhoeddus.

■ Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2006

Gwnaed ar 7 Mehefin 2006. Mae'n trosglwyddo i'r Cynulliad swyddogaethau cysylltiedig â Diogelwch Tân a swyddogaethau ychwanegol mewn perthynas â ffioedd addysg myfyrwyr.

■ Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwys) 2006

Gwnaed ar 14 Rhagfyr 2006. Mae'n rhestru'r deiliaid swyddi hynny sydd wedi eu hanghymhwysio rhag bod yn Aelodau o'r Cynulliad.

■ Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2006

Gwnaed ar 14 Rhagfyr 2006. Mae'n trosglwyddo i'r Cynulliad swyddogaethau yn ymwneud â'r Cyfrifiad, ac yn cysoni cwmpas ei swyddogaethau mewn perthynas â'r diwydiant dŵr.

■ Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007

Gwnaed ar 31 Ionawr 2007. Mae'n diweddu'r trefniadau ar gyfer cynnal etholiadau'r Cynulliad. Mae'n gwella diogelwch y pleidleisio, yn gwneud y drefn yn fwy agored a thryloyw ac yn dileu rhwystrau ar ffordd pleidleisio.

1.3 Gwaith Gweinidogion Swyddfa Cymru


Mae Gweinidogion Swyddfa Cymru yn cynrychioli diddordebau Cymru o fewn y Llywodraeth drwy eistedd ar ugain o bwyllgorau'r Cabinet ac ar Gydbwyllgor y Gweinidogion.

Maent yn gweithio'n agos gyda Gweinidogion y Cynulliad. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol a Phrif Weinidog Cymru'n cyfarfod yn rheolaidd, ac mae'r Is-ysgrifennydd Seneddol yn cael trafodaethau rheolaidd gyda Gweinidogion y Cynulliad. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymgynghori â'r Cynulliad llawn ar raglen deddfwriaethol y Llywodraeth, ac mae Gweinidogion hefyd yn cyfarfod gyda Phwyllgorau'r Cynulliad ynglŷn â materion penodol.

Yn ychwanegol at y gwaith deddfwriaethol, bu Gweinidogion yn ymdrin â rhaglen sylweddol o waith Seneddol arall yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys wyth sesiwn o gwestiynau Cymreig, dau Bwyllgor Mawr Cymreig, rhoi tystiolaeth gerbron Pwyllgorau Seneddol gan gynnwys y Pwyllgor Materion Cymreig, Dadl Dydd Gŵyl Ddewi ac un Ddadl Ohirio yn Neuadd San Steffan.

Mae'r ddau Weinidog hefyd yn ymgymryd â rhaglen brysur o gyfarfodydd, ymweliadau ac achlysuron gydag ystod eang o gyrff yng Nghymru. Cyfeirir at enghreifftiau penodol drwy gydol yr adroddiad hwn.

1.4 Cyfrifoldebau adrannol




*Swyddi yw'r niferoedd a nodir, gall y nifer o bobl ar unrhyw adeg fod yn wahanol



Ysgrifennydd Gwladol Cymru Peter Hain a Phrif Weinidog Cymru Rhodri Morgan yn dathlu pasio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 y tu allan i Adeilad y Senedd, Bae Caerdydd, fis Gorffennaf diwethaf.



SWYDDFA CYMRU



Cyfansoddiad a Deddfwriaeth



Pennod 2: Cyfansoddiad a Deddfwriaeth

2.1 Fframwaith Cyfansoddadol Cymru

Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a greodd Gynulliad Cenedlaethol Cymru a datganoli iddo'r cyfrifoldeb am feysydd polisi allweddol megis Addysg ac Iechyd.

Yn 2005, ymrwymodd y Llywodraeth i wella'r trefniant datganoli yng Nghymru, gan greu gwahaniad ffurfiol rhwng adain ddeddfwriaethol ac adain weithredol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gwahardd ymgeisyddiaeth ddeuol yn etholiadau'r Cynulliad.

Roedd Papur Gwyn 2005 "Trefn Lywodraethu Well i Gymru" – rhagredegydd i Fesur Llywodraeth Cymru – yn cydnabod y corff deddfu gwahanol yng Nghymru. Rhoddodd gyfarwyddyd bod darpariaethau Cymreig ym Mesurau'r D.U. i gael eu drafftio'n fras, gan ganiatáu mwy o ryddid i Lywodraeth Cynulliad Cymru gymhwyso'r polisiâu yng ngoleuni anghenion a diddordebau Cymru. Adwaenir y cymalau gwahanol hyn ym mesurau'r D.U. fel "pwerau fframwaith" a gellir gweld enghreifftiau yn Neddf Unioni Camweddau yn y GIG 2006 a Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006.

2.2 Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Roedd y Ddeddf wedi datblygu'r trefniant datganoli yng Nghymru gyda darpariaethau ar gyfer cynyddu **pwerau deddfwriaethol y Cynulliad** – gan roi'r cyfle i Gynulliad Cenedlaethol Cymru geisio pwerau deddfwriaethol i basio Mesurau'r Cynulliad, math newydd o ddeddfwriaeth benodol i Gymru. Gellir ceisio pwerau deddfu drwy gyfrwng Mesurau'r D.U. neu drwy broses newydd Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod yn y llyfr statud bwerau sylfaenol llawn mewn meysydd datganoledig yn dilyn canlyniad llwyddiannus mewn refferendwm.

Gwahaniad – O fis Mai 2007, enwebir y Prif Weinidog gan y Cynulliad ac fe'i penodir gan y Frenhines. Bydd Comisiwn newydd y Cynulliad yn disodli Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, a cheir swydd newydd y Cynghorwr Cyffredinol. Ef fydd prif ffynhonnell cyngor cyfreithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Ymgeisyddiaeth ddeuol – mae'r Ddeddf yn cyflwyno newidiadau i drefniadau etholiadol y Cynulliad i atal ymgeiswyr rhag sefyll am sedd ranbarthol ac un etholaethol hefyd.

2.3 Further subordinate legislation

Er mwyn gweithredu Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae angen amryw o offerynnau statudol. Mae Swyddfa Cymru'n cydweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod yr holl is-ddeddfwriaeth angenrheidiol wedi ei sefydlu.

Y prif Orchymynion i'w gwneud yw:

Gorchymyn sy'n galw am benderfyniad cadarnhaol yn y Senedd (gan gynnwys dadl yn y ddau Dŷ).

- Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Addasiadau Ôl-ddilynol a Darpariaethau Dros Dro) 2007
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Mynediad at Ddogfennau Etholiad) 2007
- Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn y dyfodol fydd yn newid Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Gorchmynion sy'n ddarostyngedig i benderfyniad negyddol yn y Senedd

- Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo staff i Gynllun Comisiwn y Cynulliad) 2007
- Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Dargyfeirio Swyddogaethau) 2007
- Gorchymyn Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Deddf Cytundebau Llywodraeth Leol 1997) (Addasiadau) 2007
- Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Darpariaethau Dros Dro) (Amrywiol) 2007
- Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Darpariaethau Dros Dro) (Cyllid) 2007
- Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Addasiadau Ôl-ddilynol) (Deddf Achosion y Goron 1947) 2007
- Rheoliadau'r Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (Cyfansoddiad a Rheolau Trefniadaeth) (Diwygiad)

Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor

- Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trosi Pwerau Fframwaith) 2007
- Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau ac Atebolrwydd) 2007
- Gorchymyn Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Statws y Goron) 2007

Gorchmynion Sefydlog

Cafodd y gorchmynion sefydlog newydd ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dilyn yr etholiadau ym Mai 2007 eu cyhoeddi ar 22 Mawrth 2007 gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru a gellir eu gweld ar wefan Swyddfa Cymru.

2.4 Darpariaeth Ddeddfwriaethol yng Nghymru

Gwelodd sesiwn 2005-06 y Senedd swm digyffelyb o ddeddfwriaeth Gymreig, gyda 26 o Ddeddfau yn rhoi pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ceir y manylion yn Atodiad 1.

Yn ystod sesiwn 2005-06 y Senedd roedd pedair Deddf i Gymruyn-unig:

- **Deddf Llywodraeth Cymru 2006**
Derbyniodd y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol ar 25 Gorffennaf 2006 ac mae ei darpariaethau allweddol wedi eu hamlinellu yn rhan 2.2 yr adroddiad hwn;
- **Deddf Cludiant (Cymru) 2006**
Derbyniodd y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol ar 16 Chwefror 2006. Mae'n gosod dyletswydd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i baratoi strategaeth gludiant ac mae'n ei gwneud yn bosibl datblygu gwasanaethau cludiant cyhoeddus mwy integredig.
- **Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006**
Derbyniodd y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol ar 25 Gorffennaf 2006. Mae'n sefydlu Comisiynydd gyda'r ddyletswydd i hybu a diogelu diddordebau pobl hŷn yng Nghymru
- **Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006**
Derbyniodd y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol ar 8 Tachwedd 2006. Mae'n cyfnerthu deddfwriaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru

Deddfau gyda darpariaethau deddfwriaethol penodol ar gyfer Cymru

Y rhai mwyaf arwyddocaol oedd Deddf Unioni Camweddau yn y GIG 2006 a Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006. Roedd y ddwy yma'n cynnwys pwerau fframwaith ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd Deddfau eraill yn cynnwys Deddf Lles Anifeiliaid 2006, Deddf Diwygio Deddfwriaeth a Rheoliadau 2006 a Deddf Lleihau Troseddu Treisiol 2006.

2.5 Deddfwriaeth ar gyfer Cymru yn y Dyfodol

Pan fydd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi ei gweithredu'n llawn yn dilyn etholiadau'r Cynulliad 2007, bydd tri phrif gyfrwng i wella pwerau deddfwriaethol ar gyfer Cymru.

- Deddfau'r D.U. – lle mae'r darpariaethau yn cynnwys Cymru neu bwerau fframwaith sy'n diwygio atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, i nodi materion y bydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol arnynt.
- Mesurau Cymru-yn-unig
- Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor

Deddfau'r Deyrnas Unedig

Mae Deddfau Cymru-yn-unig mewn maes datganoledig yn debygol o fynd yn llai aml gan y bydd yn aml yn hwylusach i'r Senedd roi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad drwy gyfrwng Gorchmyn yn y Cyfrin Gyngor. Fodd bynnag, fe fydd deddfwriaeth sylfaenol sy'n cynnwys Cymru a Lloegr ar ôl Mai 2007 yn parhau i wneud darpariaeth ar gyfer Cymru lle bo'n briodol. Mewn rhai achosion, dymuniad syml y Cynulliad fydd i'r darpariaethau hyn fod yr un mor berthnasol i Gymru. Ar yr achlysuron hynny, bydd y Senedd (gyda chydysyniad y Cynulliad) yn cymhwyso'r darpariaethau hynny i Gymru'n ogystal, yn unol â'r Papur Gwyn 'Trefn Lywodraethu Well i Gymru'.

Pwerau Fframwaith

Pwerau sydd wedi eu drafftio'n fras yw'r rhain fydd yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad drwy ddiwygio Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i gynnwys mater penodol newydd. Felly ni fyddant yn cynnwys manylion unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol y gall y Cynulliad ei gwneud drwy Fesur, ond byddant yn disgrifio cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud deddfwriaeth yn y maes hwn.

I gyd-fynd â'r holl bwerau fframwaith arfaethedig ceir memorandwm o eglurhad, fydd yn egluro cefndir darpariaethau gweithredol a deddfwriaethol presennol, ac unrhyw gyd-destun perthnasol o ran adolygiad a datblygiad polisi.

Bydd y Senedd yn gallu craffu ar bwerau fframwaith mewn Mesurau drwy ddwyn gwelliannau ymlaen yn yr un modd ag i ddarpariaethau eraill mewn deddfwriaeth sylfaenol. Byddai unrhyw Fesur y Cynulliad fyddai'n cael ei ddwyn ymlaen wedyn dan y pwerau hynny yn cael ei archwilio'n llawn gan y Cynulliad.

Gorchymynion yn y Cyfrin Gyngor

- Dan Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, gellir gwneud gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor i roi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn materion penodol (gan eu mewnosod yn atodlen 5 y Ddeddf), yn yr un ffordd â phwerau fframwaith mewn Deddfau Seneddol.
- Bydd pob Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn awdurdodi'r Cynulliad i greu deddfwriaeth (Mesurau'r Cynulliad) o fewn cwrmpas y materion a ddisgrifiwyd yn y Gorchymyn.

Mae proses Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn syrthio i dri cham gwahanol:

- 1 Datblygu a chytuno ar gynigion rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adrannau priodol y D.U. a Swyddfa Cymru;
- 2 Craffu arnynt cyn y broses ddeddfu;
- 3 Y Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor yn cael ei ystyried gan y Cynulliad a chan y Senedd.

Mae'r mecanwaith hwn yn darparu'r ffordd i'r cynulliad geisio cymhwysedd deddfwriaethol gan y Senedd yn ychwanegol at y broses bresennol a pharhaol o geisio darpariaeth ym Mesurau'r D.U.

Bydd proses y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn darparu cyfrwng deddfwriaethol i'r Cynulliad fydd yn osgoi'r angen i wneud cais am le yn rhaglen ddeddfwriaethol y D.U. ac felly'n osgoi unrhyw dagfa Seneddol bosibl.

Mae Llywodraeth y D.U. o'i rhan hi yn ymrwymedig i sicrhau bod craffu priodol ar y Gorchymynion yn y Cyfrin Gyngor; mater i'r Senedd yw sut y sicrhau hyn. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynhyrchu memorandwm esboniadol i gyd-fynd â phob Gorchymyn arfaethedig yn y Cyfrin Gyngor; gosodir hwn yn llyfrgelloedd y ddau Dŷ.

Mesurau Cymru-yn-Unig

Bydd y ffordd yn agored o hyd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru wneud cais am le yn rhaglen Seneddol y D.U. ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r datblygiadau newydd yn y pwerau fframwaith ym mesurau'r D.U. a'r defnydd o broses y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, efallai mai ychydig o angen fydd am fesurau Cymru-yn-Unig.

Mesurau'r Cynulliad

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu ar gyfer math newydd o offeryn deddfwriaethol – Mesurau'r Cynulliad – y bydd y Cynulliad llawn yn craffu arnynt mewn ffordd debyg i ddeddfwriaeth sylfaenol yn San Steffan. Mae'n rhaid i fesurau syrthio o fewn y cymhwysedd deddfwriaethol a roddir drwy'r broses newydd o Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor neu bwerau fframwaith mewn Mesurau. Drwy ddefnyddio'r pwerau deddfwriaethol hyn bydd y Cynulliad wedyn yn gallu pasio Mesurau'r Cynulliad.

Oherwydd y bydd Atodlen 5 yn cael ei diwygio drwy ddarpariaeth pŵer fframwaith neu drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, fe fydd yna un ffynhonnell statudol gydlynol ar gyfer pwerau'r Cynulliad i droi Mesurau yn ddeddfau.

2.6 Rhaglen Hyfforddi Whitehall

Mae swyddogion Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y cyd yn darparu rhaglen hyfforddi ddigryffelyb i gwneud mwy o swyddogion allweddol yn adrannau Llywodraeth y D.U. yn ymwybodol o'r trefniant datganoli Cymreig newydd a'i oblygiadau ar gyfer eu gwaith hwy.

2.7 Nodiadau Esboniadol ar Ddatganoli

Mae Nodiadau Esboniadol ar Ddatganoli ar gael ar wefan yr Adran Materion Cyfansoddiadol neu drwy gysylltu â Swyddfa Cymru. Mae Swyddfa Cymru yn diweddarau'r arweiniad fydd ar gael drwy'r dolennau isod:

DGN 1 – Trefniadau Gwaith Cyffredin

- <http://www.dca.gov.uk/constitution/devolution/guidance/dgn01.pdf>

DGN 4 – Rôl Ysgrifennydd Gwladol Cymru

- <http://www.dca.gov.uk/constitution/devolution/guidance/dgn04.pdf>


DGN 9 – Deddfwriaeth Sylfaenol ar ôl Datganoli sy'n Effeithio ar Gymru

- <http://www.dca.gov.uk/constitution/devolution/guidance/dgn09.pdf>

2.8 Adran Ddeddfwriaeth Gwefan Swyddfa Cymru

Mae gwefan Swyddfa Cymru'n cynnwys gwybodaeth am y ddeddfwriaeth ddiweddaraf sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys:

- Mesurau a Deddfau'r D.U.
- Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor ac Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006
- Mesurau'r Cynulliad
- Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau
- Offerynnau statudol eraill cysylltiedig â Deddf Llywodraeth Cymru 2006



Pennod 3

Pleidio Achos Cymru

Pennod 3: Pleidio Achos Cymru

Mae ein cyfrifoldebau a'n hymrwymiad i Gymru yn ymestyn y tu hwnt i osod a chynnal y fframwaith deddfwriaethol a chyfansoddiadol, ac yn cynnwys ymdrechion i hybu Cymru ar lefel economaidd a diwylliannol.

Mae gweinidogion Swyddfa Cymru yn cyflawni rôl allweddol yn hybu economi a diwylliant Cymru, ac maent mewn sefyllfa dda i chwarae rhan ddylanwadol yn y materion hyn, gartref a thramor. Mae'r gweinidogion yn hybu Cymru a'i phobl mewn llawer o ffyrdd, gan gynnwys:

- Ymweld â diwydiant a busnesau yng Nghymru i hybu llwyddiant economaidd Cymru;
- Ymwneud ag arweinwyr busnes rhyngwladol i hybu mewnfuddsoddiad yng Nghymru;
- Trafod materion llafur gydag arweinwyr undebau a grwpiau sy'n cynrychioli gweithwyr; Hybu Cymru ar ymweliadau tramor;
- Ymdrin â'r Wasg i hybu diddordebau Cymreig;
- Mynychu digwyddiadau cenedlaethol i gydnabod rhagoriaeth ym meysydd busnes, chwaraeon a diwylliant yng Nghymru;
- Cydnabod materion ac anghenion cymunedol;
- Hybu cynhyrchu ynni yng Nghymru, gan gynnwys ynni o ffynonellau adnewyddadwy;
- Cydnabod a hybu amrywiaeth yng Nghymru;
- Ymwneud â'r Cymry oddi cartref, ledled y D.U. a thros y môr hefyd;

Championing Innovation

Bu ymweliad â Technium CAST yng Ngogledd Cymru y llynedd yn ffordd i Peter Hain, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ddal i fyny gyda'r feddalwedd gyfrifiadurol ddiweddaraf. Y llynedd denodd y Technium, sydd wedi ei leoli ym Mharc Menai, Bangor, Grŵp Inspired Gaming, prif ddarparwr adloniant a llwyfannau hapchwarae Ewrop, i leoli ei ganolfan gweithrediadau rhwydweithio byd-eang ym Mangor gan greu 190 o swyddi.

Yn dilyn taith o amgylch y cyfleusterau a gynigir i gwmnïau, meddai Mr Hain: "Mae cael canolfan feddalwedd gref a honno'n tyfu'n gyflym yng Ngogledd Orllewin Cymru wedi bod o gymorth i Gymru ddenu buddsoddiadau megis yr Inspired Gaming Group.

"Mae Technium CAST a'r clwstwr cryf o'i gwmpas yn fagnat i ddenu buddsoddiad o ansawdd da a chyflogaeth i mewn i'r ardal. Mae hyn yn dangos sut y mae Cymru ar y blaen yn ras dechnoleg fyd-eang ein dyddiau ni."



Hyrwyddo Datblygiad

Cymru'n cael ei thrawsnewid mor gyflym yn blynyddoedd diwethaf, diolch i'r tyfiant mewn cwmnïau uwch-dechnoleg, manteisiodd Gweinidog Swyddfa Cymru Nick Ainger ar y cyfle yn yr haf i ymweld â nifer o'r datblygiadau newydd.

Un safle sy'n dal i dyfu yw pencadlys Systemau Amddiffyn a Diogelwch EADS sydd wedi ei leoli yng Nghasnewydd.

Wedi ymweld ag EADS meddai Mr Ainger: *"Mae Systemau Amddiffyn a Diogelwch EADS yn dod â llawer iawn i mewn i economi leol De-ddwyrain Cymru. Maen nhw wedi ennill nifer o gontractau amddiffyn a rhai sifil, gydag un a sicrhawyd y llynedd yn creu 100 o swyddi tra chrefftus yng Nghasnewydd."*

"Mae adfywiad De Ddwyrain Cymru wedi hen gychwyn a chyda chhwmmiau llwyddiannus fel EADS yn sefydlu canolfan gadarn yno rydw i'n sicr y bydd yn dal i fynd o nerth i nerth."



Hyrwyddo Datblygiad

Ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf ymwelodd Peter Hain, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, â'r Gogledd i gyfarfod â thrigolion stad o dai yng Nghyffordd Llandudno oedd wedi gweld eu cymuned yn cael ei difetha pan ddechreuwyd gwerthu cyffuriau mewn t?.

Wedi i'r trigolion gwyno, rhoddodd yr heddlu rybudd i gau'r t? oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ers i'r tenantiaid gael eu troi allan mae nifer y digwyddiadau o anhrefn wedi gostwng o 75 y cant.

Ar ôl cyfarfod â'r tenantiaid, meddai Mr Hain *"Fe wnaeth y trigolion y gwnes i gwrdd â nhw ddisgrifio sut roedden nhw wedi cyrraedd pen eu tennyn. Roedd y ddeddfwriaeth gafodd ei chyflwyno gennym ni wedi ei bwriadu i ddod i lawr yn llym ar gymdogion dychrynlyd ac i gynorthwyo pobl fel y rhai sy'n byw ym Marl Drive. Rydym ni bellach wedi rhoi'r gyfraith ar ochr y bobl yn hytrach nag ar ochr cnafon drwg. Roedd y cymdogion i gyd yn teimlo eu bod wedi cael rhyddhad."*



Hyrwyddo Diogelwch Cymunedol



Fe wnaeth Gweinidog Swyddfa Cymru, Nick Ainger, y mae ei gyfrifoldebau fel gweinidog yn cynnwys materion gwyrdd, ymweld â'r Ganolfan Dechnoleg Amgen (CAT) ym Machynlleth yn ôl ym mis Awst.

Gan fod Adolygiad Ynni'r Llywodraeth yn mynegi gwir ymrwymiad i ddelio â'r newid hinsawdd a datblygu ynni glân am brisiau fforddiadwy, mae gan ganolfannau megis CAT ran hanfodol i'w chwarae i'n cynorthwyo i gyflawni hyn.

Wrth wneud sylwadau am ei ymweliad â CAT, meddai Nick Ainger: "Mae'r Ganolfan Dechnoleg Amgen yn arwain y maes o ran darparu atebion gwyrdd i broblemau amgylcheddol.

"Dyma un o'r prif eco-ganolfannau yn Ewrop a thrwy ei rhaglenni ymchwil, datblygiad ac addysg gyhoeddus mae'n cynorthwyo i wneud Cymru yn ganolfan rhagoriaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy."

Hyrwyddo Cydraddoldeb

Cyflwynodd Peter Hain, Ysgrifennydd Gwladol Cymru wobr Merch y Flwyddyn Cymru 2006 i Siân Eirian, y ferch gyntaf i fod yn gyfrifol am Eisteddfod yr Urdd. Fel cyfarwyddwraig yr Urdd, Siân sy'n gyfrifol am gyd-drefnu'r Eisteddfod a datblygu cyfleoedd celfyddydol ar gyfer 50,000 o blant.

Nod y gwobrau pwysig yma yw hybu'r rôl sydd gan ferched yn y gweithle ac ym mhob sector o gymdeithas yng Nghymru. Maent yn codi ymwybyddiaeth ac yn adlewyrchu a chadarnhau'r newid yn rôl merched dros yr un flwyddyn ar ddeg diwethaf drwy dathlu eu llwyddiannau a gwerth eu cyfraniadau i sefydlogrwydd Cymru.



Roedd y gwobrau eraill oedd yn cael eu cyflwyno ar yr achlysur a drefnwyd gan y Western Mail yn cynnwys Y Ferch yn Arloesi, Y Ferch fel Addysgwr, Perchennog Busnes Bychan a'r Ddychwelwraig i Waith Fwyaf Effeithiol.

Hyrwyddo Diwylliant

Cyfrannodd Swyddfa Cymru at weithgareddau Llywodraeth y D.U. i goffáu daucanmlwyddiant Deddf Dileu Caethwasiaeth 1807 gyda chyfres o ddigwyddiadau ac ymweliadau yng Nghymru, Llundain a thramor. Ym mis Chwefror yr Ysgrifennydd Gwladol oedd yn llywyddu cyfarfod croeso yn Swyddfeydd Cyffredinol y Cyngor Prydeinig yn Efrog Newydd i goffáu'r daucanmlwyddiant. Ymhlith y gwahoddedigion yr oedd Paul Robeson Jr, mab y canwr a'r ymgyrchydd dros hawliau dynol, Paul Robeson, ac aelodau o Gorws Llafur amlhiliol Efrog Newydd.



Ym mis Mawrth, cyhoeddodd Swyddfa Cymru lyfryn dwyieithog i goffáu'r daucanmlwyddiant yng Nghymru. Mae'n amlinellu cysylltiadau Cymru â'r fasnach gaethweision, effaith y fasnach gaethweision ar hanes Cymru, yn arbennig o ran diwydiant, ac mae'n tynnu sylw at waith i ddileu materion hiliaeth a chaethwasiaeth sy'n parhau yn ein dyddiau ni. Mae'r llyfryn wedi cael ei ddosbarthu i'r holl ysgolion yng Nghymru.

Hyrwyddo Chwaraeon

Ym mis Tachwedd, ymunodd Peter Hain, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, â rhes o sêr rygbi rhyngwladol, gan gynnwys (yn y llun) Jonathan Davies, Xavier Rush a Robert Howley, yng nghinio'r Clwb Rygbi Cymreig mwyaf erioed yn Neuadd y Ddinas Caerdydd. Roedd yr achlysur er budd Cymdeithas Cyn-chwaraewyr Rygbi Rhyngwladol Cymru (WREX). Nod y gymdeithas yw lliniaru tlodi a chaledi chwaraewyr rhyngwladol Cymru, y mae eu hanafiadau wrth chwarae wedi effeithio ar eu gallu i ennill ar ôl rhoi'r gorau i rygbi. Cynigiodd Mr Hain lwncestun i ddaucanmlwyddiant geni William Webb-Ellis, tad rygbi, ac i bwysigrwydd y gêm i genedl y Cymry.



Hyrwyddo Buddsoddi


Roedd y penderfyniad i greu Academi Hyfforddi Amddiffyn yn Sain Tathan, Bro Morgannwg, yn hwb anferth i Gymru. Bydd y contract gwerth £16 biliwn yn dod â thros 5000 o swyddi i Gymru, gyda chyfleoedd sylweddol i fusnesau lleol yn y gadwyn gyflenwi. Fe fydd hefyd yn rhoi cyfle i wella ffyrdd a chludiant cyhoeddus.

Bydd Swyddfa Cymru yn parhau i chwarae ei rhan, gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn, Consortiwm y Metrix a Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel aelod o'r grŵp llywio rhynglywodraethol sy'n symud y prosiect hwn yn ei flaen.

Wrth siarad, yn dilyn y cyhoeddiad ym mis Ionawr, dywedodd Peter Hain, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, *“Mae'r hwb enfawr hwn i Sain Tathan yn ganlyniad uniongyrchol y bartneriaeth gref rhwng Caerdydd a Llundain. Mae gan Gymru dîm sy'n curo'r byd, a thrwy gydweithio bob cam o'r ffordd, rydym ni wedi dangos y gall Cymru gystadlu ar y lefel uchaf. Mewn gair, mae Cymru'n medru”*.



Argraffiad arlunydd o'r Academi Hyfforddi Amddiffyn yn Sain Tathan.



Amcanion a Chyflawni

Pennod 4: Amcanion a Chyflawni

Edrych ymlaen: Nodau ac Amcanion ar gyfer 2007-08

Mae nodau ac amcanion Swyddfa Cymru am 2007-08 wedi cael eu diwygio i wneud amrywiaeth y gwaith a gyflawnwyd yn fwy eglur. Mae'n fwriad gan Swyddfa Cymru adolygu ei nodau a'i hamcanion yn flynyddol, er mwyn sicrhau eu bod wedi eu halinio'n iawn â chydbwysedd y gwaith fydd yn wynebu'r Swyddfa mewn blynyddoedd dilynol. Bydd yr adolygiad hefyd yn cydnabod bod y gwaith y mae'r Swyddfa'n ymgymryd ag ef yn newid dros amser, i adlewyrchu'r trefniant datganoli datblygol i Gymru.

4.1 Nodau

Cefnogi Ysgrifennydd Gwladol Cymru wrth iddo gynrychioli Cymru yn Llywodraeth y D.U.; cynrychioli Llywodraeth y D.U. yng Nghymru a sicrhau bod y trefniant cyfansoddiadol newydd i Gymru yn gweithio'n rhwydd ac yn effeithiol.

4.2 Amcanion

Amcan 1 – Cyfansoddiad a Senedd

Cynnal a gwella'r trefniant datganoli drwy:

- Sicrhau bod y newidiadau i'r trefniant cyfansoddiadol sy'n tarddu o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael eu gweithredu a'u rhedeg yn rhwydd;
- Sicrhau lle o fewn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol benodol-i-Gymru, gan gynnwys darpariaethau o fewn mesurau ehangach y D.U., a llywio eu taith drwy'r Senedd, drwy gydweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac Adrannau Llywodraeth y D.U.
- Bod yn gyfrifol am ddeddfwriaeth arall benodol-i-Gymru, gan gynnwys Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor sy'n gwella cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu rai y mae eu hangen fel arall i weithredu'r trefniant datganoli; a
- Galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog yn Nhŷ'r Cyffredin, a llyfarwyr ar ran y Llywodraeth yn Nhŷ'r Arglywyddi, i ymateb i ddiddordebau Seneddol mewn materion Cymreig.

Amcan 2 – Llywodraeth

Cynnal perthynas waith effeithiol gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy:

- Feithrin cydweithio mewn partneriaeth rhwng y weinyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru a Llywodraeth y D.U., a chyda'r gweinyddiaethau datganoledig eraill;
- Sicrhau bod diddordebau Cymru'n cael eu hystyried yn llawn mewn swyddogaethau sydd heb eu datganoli, ac mewn meysydd polisi sy'n torri ar draws cyfrifoldebau Llywodraeth y D.U. a Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- Cynrychioli diddordebau Cymru yn Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr 2007;
- Dal ati gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cynulliad Cymru, i adolygu sut mae'r Datganiad Polisi Cyllido ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn cael ei weithredu, fel y mae'n berthnasol i Gymru; a chan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i sicrhau bod y grant arian yn cael ei drosglwyddo'n effeithiol i Gronfa Gyfunol Cymru.

Amcan 3 – Cynrychiolaeth

Cynrychioli diddordebau Cymru yn y byd ehangach drwy:

- Hybu cyfleu barn Cymru'n effeithiol a chyd-drefnu polisi'n effeithiol; a hybu diddordebau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru mewn cyd-destunau ar wahân i'r Senedd a'r
- Llywodraeth, a chyfrannu i drafodaeth gyhoeddus wybodus.

Amcan 4 – Llywodraeth

Sicrhau, datblygu a rheoli'n effeithiol ac yn effeithlon yr adnoddau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r amcanion blaenorol, gyda ffocws neilltuol ar y canlynol:

- Gwerth – cynyddu effeithlonrwydd a gwerth am arian i'r eithaf,
- Pobl – buddsoddi yn ein pobl a thynnu'r gorau ohonynt, a
- Cyflawni – datblygu a gwella'r modd yr ydym yn cyflawni pob un o'r amcanion drwy Raglen Swyddfa Cymru ar gyfer Gwella.

4.3 Edrych yn ôl: Yr Hyn a Gyflawnwyd yn erbyn yr Amcanion yn 2006-07

Amcan 1

1a. Cydweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Adrannau Llywodraeth y D.U. i sicrhau:

- taith mesurau drwy'r senedd, sef Mesurau penodol-i-Gymru a Mesurau Cymru a Lloegr gyda darpariaethau penodol-i-Gymru, yn arbennig Mesur Llywodraeth Cymru, a threfniadau gweinyddol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad a;
- gweithredu newidiadau i drefniant datganoli Cymru, fydd yn tarddu o Fesur Llywodraeth Cymru unwaith y bydd yn ddeddf.

1b. Galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog yn Nhŷ'r Cyffredin, a llefarwyr ar ran y Llywodraeth yn Nhŷ'r Arglwyddi, i ymateb i diddordebau Seneddol mewn materion Cymreig.

1c. Ystyried gyda chydweithwyr yn y Cabinet a ddylid gwneud newidiadau i drefniant datganoli Cymru a gweithredu unrhyw rai y cytunir arnynt.

Mae Swyddfa Cymru'n parhau i gydweithio'n agos gyda'r Cynulliad. Digwyddodd ein llwyddiant mwyaf hyd yma ers i'r Swyddfa gael ei ffurfio yn 1999 ar 25 Gorffennaf 2006 pan dderbyniodd Deddf Llywodraeth Cymru Gydsyniad Brenhinol. Mae'r Ddeddf, y gwnaethom ei llywio drwy'r Senedd, yn hebrwng cyfnod newydd i mewn ar gyfer datganoli ac mae hi wedi torri'r ddadl gyfansoddiadol am genhedlaeth.

Yn dilyn etholiadau Mai 2007, bydd y Cynulliad yn derbyn pwerau deddfwriaethol gwell i'w alluogi i gyflawni polisiâu sydd wedi eu llunio'n bwrpasol ar gyfer pobl Cymru. Am y tro cyntaf, mae'r Ddeddf yn gosod pwerau sylfaenol i Gymru ar y llyfr statud, yn barod i'w gweithredu unwaith y bydd pobl Cymru yn cefnogi newid o'r fath mewn refferendwm.

At hynny, mae nifer o Orchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau, mewn meysydd megis addysg a diogelwch tân, wedi trosglwyddo pwerau eraill i'r Cynulliad



Amcan 2

Cynnal a gwella'r trefniant datganoli drwy:

- feithrin cydweithio mewn partneriaeth rhwng y weinyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru a Llywodraeth y D.U., a chyda'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, ynghylch diddordebau unigryw i Gymru mewn perthynas â materion sydd heb eu datganoli,
- cynghori Adrannau'r D.U. a gweinyddiaethau datganoledig eraill ynghylch diddordebau unigryw i Gymru mewn perthynas â materion sydd heb eu datganoli,
- hybu cyfleu barn Cymru'n effeithiol a chyd-drefnu polisi'n effeithiol a hybu diddordebau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru mewn cyd-destunau ar wahân i'r Senedd a'r Llywodraeth, a chyfrannu i drafodaeth gyhoeddus wybodus.

Mae Swyddfa Cymru bob amser yn ceisio cymryd rhan yn y broses deddfwriaethol cyn gynted ag y bo modd, er mwyn sicrhau bod diddordebau Cymreig yn cael ystyriaeth lawn. Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym ni wedi gweithio gydag Adrannau'r Llywodraeth ar elfennau Cymreig mewn deddfwriaeth sylfaenol yn y Mesur Unioni Camweddau yn y GIG, Y Mesur Addysg ac Arolygiadau a'r Mesur Addysg Bellach. Rydym wedi monitro deddfwriaeth arall megis y Mesur Iechyd Meddwl. Rydym ni hefyd wedi cyfrannu tuag at y Papurau Gwyn sydd i ddod ar Ynni a Chynllunio, gan dynnu sylw at ddiddordebau Cymreig.

Yn ogystal â Mesur Llywodraeth Cymru, buom yn goruchwyllo taith Mesur arloesol y Comisiynydd ar gyfer Pobl Hŷn (Cymru) drwy'r Senedd.

Cyfrannodd Gweinidogion Swyddfa Cymru i ystod o Bwyllgorau'r Cabinet ar swyddogaethau neilltuedig. Mae swyddogion wedi darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddatganoli ar gyfer gweision sifil drwy Whitehall ac wedi peri bod arweiniad ar gael ynghylch datganoli. Mae swyddogion wedi cyfarfod yn rheolaidd gyda'u cymheiriaid mewn Adrannau eraill i sicrhau bod eu hagwedd tuag at gynnal etholiadau a pholisi datganoli yn gyson.

Gwnaed cyfraniadau hefyd i'r adolygiad o Siarter Brenhinol y BBC, Rhwydwaith Polisi Ynni Cynaliadwy a thrafodaethau ar ddyfodol rhwydwaith y swyddfeydd post gwledig.

Mae Is-grŵp Cymreig y Grŵp Monitro Hawliadau Iechyd Glo, gyda'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn y gadair, wedi cynorthwyo i oruchwyllo taliadau i gyn-lowyr a'u teuluoedd, sydd bellach wedi mynd heibio carreg filltir y £600m.

Mae Gweinidogion Swyddfa Cymru yn cynnal cyfarfodydd yn rheolaidd gyda'u cydweithwyr yn y Cabinet a Gweinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn hyrwyddo diddordebau Cymreig.

Fe gyhoeddodd Swyddfa Cymru ddogfen ymgynghorol ar y cyd gyda'r Adran Iechyd ar gynigion i wneud manau cyhoeddus caeedig a manau gwaith yn ddi-fwg. Rydym wedi cyfrannu i weithgor Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar y cyd ar DARA Sain Tathan, wedi cynorthwyo i gynllunio lobbio yn Ewrop ar gais Caerdydd am Awdurdod Goruchwyllo Galileo ac rydym wedi cydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynllunio gweithgareddau i ddenu rhagor o swyddi'r gwasanaeth sifil i Gymru, yn unol ag Adolygiad Lyons.

Amcan 3

Sicrhau bod y grant yn cael ei drosglwyddo'n effeithiol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru:

- **Dal ati, gyda'r Trysorlys a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, i adolygu sut mae'r polisi cyllido ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn cael ei weithredu, a chymryd rhan mewn paratodau ar gyfer yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr yn 2007.**

Mae'r dyraniadau cyllid i'r Cynulliad wedi eu gwneud yn unol â'r Datganiad Polisi Cyllido, a ddiweddarwyd ddiwethaf fel rhan o Adolygiad Gwariant 2004.

Fe wnaeth Adolygiad Gwariant 2004 barhau ymrwymiad y Llywodraeth i ddarparu Cyllid Barnett – plus ar gyfer rhaglenni cronfa strwythurol Cymru. Roedd y dyraniadau cyllid ar gyfer Cymru yn darparu ar gyfer tyfiant mewn gwariant o bedwar y cant ar gyfartaledd yn flynyddol mewn termau gwirioneddol dros gyfnod Adolygiad Gwariant 2004.

Amcan 4

Sicrhau, datblygu a rheoli'n effeithiol ac yn effeithlon yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion hyn.

Ymdrinnir â hyn yn fanwl ym Mhennod 5.

4.4 Cynnydd yn erbyn Targedau

Nid yw Swyddfa Cymru'n darparu gwasanaethau yn uniongyrchol i'r cyhoedd ond mae'n delio â gohebiaeth, ymholiadau dros y ffôn ac ymholiadau'r wasg ynghylch gwaith y Swyddfa.


Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau effeithlon o ansawdd uchel. Yn dilyn awgrym gwrandawriad y Pwyllgor Materion Cymreig ar 25 Hydref 2006, cytunasom i ymgorffori'r wybodaeth ystadegol ar gyfer Cwestiynau Seneddol i mewn yn ein tabl targedau.

Mae gennym bump o dargedau wedi eu hanelu at sicrhau effeithlonrwydd ac ansawdd yn ein hymwneud â'r cyhoedd. Mae'r rhain wedi eu rhestru yn y tabl dros y dudalen.

Targedau a Dangosyddion Perfformiad

Targed	Dangosydd	Perfformiad Ebrill 2006-Mawrth 2007
Byddwn yn ymateb i ohebiaeth o fewn 15 diwrnod gwaith o'i derbyn.	Y ganran o'r ohebiaeth a atebwyd o fewn 15 diwrnod gwaith o'i derbyn	93%
Byddwn yn sicrhau bod cyfrifon yn cael eu talu'n brydlon. Lle mae contract yn bodoli, byddwn yn gwneud taliadau yn unol â'r amserlen berthnasol. Fel arall byddwn yn talu cyfrifon o fewn 30 diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys.	Y ganran o anfonebau a dalwyd o fewn yr amser targed.	93%
Byddwn yn delio â phob cais am wybodaeth yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Caiff cais ei brosesu fel arfer o fewn 20 diwrnod gwaith o'i dderbyn neu, neu gydag estyniad a ganiatawyd, neu byddwn yn anfon ateb dros dro yn egluro'r rhesymau am yr oedi ac yn dweud pryd y caiff ateb llawn ei anfon.	Y ganran o achosion o Ryddid Gwybodaeth a atebwyd o fewn 20 diwrnod gwaith	88%
Rydym wedi sefydlu gweithdrefn gwyno ffurfiol a byddwn yn edrych i mewn i unrhyw gwyn ac yn ymateb iddi o fewn 10 diwrnod.	Y ganran o gwynion yr ymdriniwyd â hwy o fewn 10 diwrnod.	Gellir gweld gweithdrefn gwyno Swyddfa Cymru ar y wefan adrannol yn www.walesoffice.gov.uk Nid yw Swyddfa Cymru wedi derbyn yr un gwyn yn ystod y cyfnod hwn.
Ymateb i bob Cwestiwn Seneddol Ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod o'u rhoi gerbron yn Nhŷ'r Cyffredin; a'r holl Gwestiynau Diwrnod a Enwyd i'w hateb ar y dyddiadau a nodwyd.	Y ganran o gwestiynau yr ymdriniwyd â hwy o fewn y rheoliad 5-diwrnod. 89% Y ganran o gwestiynau diwrnod a enwyd a atebwyd ar y dyddiad a nodwyd. 100%	89% 100%

Troednodyn: Rhoddwyd y targed ar Gwestiynau Seneddol i mewn yn lle'r targed ar geisiadau am wybodaeth a dynnwyd allan.



Moderneiddio'r Llywodraeth

Pennod 5: Moderneiddio'r Llywodraeth

Mae Swyddfa Cymru'n gweithio'n bennaf o fewn y Llywodraeth a rhwng Llywodraeth y D.U. a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nid oes iddi swyddogaeth ymdrin â'r cyhoedd yn uniongyrchol, er ei bod yn atebol i'r Senedd ac i'r cyhoedd.

Yn dilyn newidiadau ym Mheirianwaith y Llywodraeth daeth yr Adran Materion Cyfansoddiadol (DCA) yn Weinyddiaeth Cyfiawnder ar 9 Mai 2007. Mae'r holl Gytundebau Lefel Gwasanaeth a chytundebau eraill gyda'r DCA yn cael eu dwyn ymlaen gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.

5.1 Cytundebau Lefel Gwasanaeth

Mae gan Swyddfa Cymru Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r DCA sy'n cwmpasu swyddogaethau cyllid (gan gynnwys rheoli arian), cefnogaeth TG, a rheoli cyfleusterau ar gyfer yr holl adeiladau a gwaith newydd. Bydd Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer cefnogaeth Adnoddau Dynol wedi ei gwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2007.

Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn cynnwys swyddogaethau cyllid a gwasanaethau Adnoddau Dynol wedi ei sefydlu gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

5.2 Heriau Swyddfa Cymru

Ym mis Ebrill 2006, daeth y Cyfarwyddwr â'r holl staff at ei gilydd am ddiwrnod a hanner er mwyn edrych ar sut y dylai'r swyddfa weithio yn y dyfodol a sut y byddai'r hyn oedd ar y pryd yn Fesur Llywodraeth Cymru yn effeithio ar hynny. Arweiniodd hyn at ffurfio nifer o dasgluoedd ar sut i wella prosesau Swyddfa Cymru.

O ganlyniad gwnaed nifer o welliannau gyda gwell defnydd o gyfleusterau TCG a phrosesau ar gyfer ymdrin â gohebiaeth. Datblygwyd strategaeth Adnoddau Dynol gyda'r bwriad o hybu corff mwy hyblyg ac arloesol. Mae gwaith pellach wedi cychwyn ar wella ein rhyngwyd allanol a chreu mewnwyd ar gyfer y staff.

Gwelir prif heriau'r Swyddfa fel:

- Sicrhau bod Mesur Llywodraeth Cymru yn mynd drwodd
- Sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n effeithiol erbyn Mai 2007

Ac wrth gyfarfod â'r ddwy her hon mae Swyddfa Cymru wedi derbyn cefnogaeth werthfawr gan staff yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Byddwn yn cydweithio gyda Whitehall a chyda'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hybu'r Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor i roi cymhwysedd deddfwriaethol mewn materion penodol i'r Cynulliad. Rydym wedi bod yn trafod gydag Adrannau Llywodraeth y D.U. a Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth i bolisi gael ei ddatblygu, neu ei weithredu.

Rydym wedi parhau i gyflawni'r dyletswyddau ffurfiol o drosglwyddo grant o Drysorlys Ei Mawrhydi i Gymru, ac yn ceisio gwella'r ffordd y gwneir hyn. Cymerodd Gweinidogion Swyddfa Cymru ran lawn hefyd yn Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr 2007 er mwyn parhau i sicrhau trefniadau cyllidol teg i Gymru.

Rydym wedi hyrwyddo diddordebau Cymru, gan ymateb i gyfleoedd a chwarae rhan adeiladol ym materion y dydd.

Gweithgareddau allweddol y Swyddfa oedd cynorthwyo Gweinidogion Swyddfa Cymru i weithredu'r trefniadau cyfansoddiadol newydd ar gyfer gwell llywodraeth i Gymru, gan feithrin gweithio mewn partneriaeth rhwng y weinyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru a Llywodraeth y D.U. ac ymyrryd mewn materion o fewn a thu hwnt i'r llywodraeth, gan lefaru ar ran Cymru a hybu'i diddordebau.

Roedd y gweithgareddau hyn yn galw am newidiadau yn y modd yr oedd y Swyddfa'n cael ei rhedeg a'i staffio, a sut yr oedd unigolion yn gweithio. Yn neilltuol, penderfynodd y Swyddfa ar ddull mwy hyblyg o ddyrannu gwaith, gyda phobl â'r wybodaeth a'r arbenigedd angenrheidiol yn cael eu tynnu at ei gilydd ar gyfer projectau penodol, yn hytrach na chael eu dyrannu i geisio ymdrin ag Adrannau penodol yn Llywodraethau'r D.U. a Chynulliad Cymru. Roedd y gwelliannau hyn yn annog:

- mwy o ymdrech i adeiladu cysylltiadau mewn meysydd allweddol o'r Llywodraeth;
- rôl sganio fwy eang, i nodi'r testunau oedd yn codi;
- gwell sgiliau briffio;
- gwell cyfathrebu;
- rheoli perfformiad yn effeithiol;
- hunaniaeth swyddfa gliriach, yn cofleidio ei safleoedd gwahanol yn Llundain a Chaerdydd a'i chymysgedd o staff wedi eu tynnu o'r Adran Materion Cyfansoddiadol ac ar fenthyg oddi wrth y Cynulliad;
- Gwerthfawrogiad o amrywiaeth, llwyddiant personol, datblygiad, cyfathrebu, ac ymddygiad proffesiynol; a
- Gwasanaethau corfforaethol wedi eu hintegreiddio'n well yng ngwaith y Swyddfa yn ei chyfanrwydd.

Agwedd bwysig ar y gwelliant oedd datblygu Strategaeth Adnoddau Dynol. Cyflawnwyd hyn ym mis Rhagfyr. Mae'n cydnabod bod yn rhaid i'r Swyddfa:

- gefnogi'r ystod lawn o waith o'r ddau safle;
- parhau i ddenu staff gyda gwybodaeth am Gymru, fel arfer ar fenthyg o'r Cynulliad Cenedlaethol neu Lywodraeth Cynulliad Cymru;
- darparu diddordeb, her a datblygiad, yn ogystal â'r cyfle i gydweithio'n agos gyda Gweinidogion, ar ddrws ystod eang o bynciau posibl; a
- chydabod mai cyfnodau cyfyngedig o amser y bydd pobl fel arfer yn eu treulio yma, gan ddefnyddio a datblygu eu sgiliau cyn symud ymlaen, gyda'r angen i ddangos eu datblygiad a'u llwyddiannau personol wrth wneud hynny.

Mae systemau cefnogaeth allweddol y Swyddfa wedi cael eu moderneiddio. Mae'r Uned Ohebiaeth wrth graidd Swyddfa Cymru, yn rheoli ein cysylltiadau allanol – drwy lythyr, e-bost neu'r ffôn. Diwygiwyd hi i wneud gwell defnydd o dechnoleg er mwyn gwneud mwy o fusnes electronig yn bosibl. Ar yr un pryd bu'n bosibl lleihau'r ymdrech oedd yn mynd i mewn i'r gweithgareddau hyn, tra'n cynnal neu wella gwasanaethau a chyfleusterau.



5.3 Defnydd Effeithlon o Adnoddau

Rydym wedi ailgyfeirio adnoddau er mwyn gwella meysydd megis Llywodraeth Gorfforaethol a Chefnogaeth Polisi gan gynyddu'r cynhyrchiant o fewn yr un lefel o adnoddau staff. Gan weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon rydym yn lleihau swm yr ynni a'r dŵr yr ydym yn ei ddefnyddio. Rydym wedi gwrthbwyso ein gollyngiadau carbon drwy ddefnyddio cwmni a argymhellir gan DDEFFRA. Rydym hefyd yn gwneud yn fawr o'r system newydd o brisio tocynnau trên ac yn gwneud gwell defnydd o'r dewisiadau prynu er mwyn gostwng nifer yr anfonebau a gynhyrchir. Mae'r gwelliannau hyn yn dechrau dangos elw yn ein costau gweithredu.

5.4 Moderneiddio'r Llywodraeth a Diwygio'r Gwasanaeth Sifil

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi gosod Cymru mewn lle blaenllaw o ran moderneiddio Llywodraeth. Mae datganoli pwerau a chyfrifoldebau helaeth pellach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gam arall yn rhaglen radical y Llywodraeth o ddiwygio cyfansoddiadol. Mae Swyddfa Cymru wedi chwarae rhan allweddol yn datblygu trefniant datganoli Cymru.

5.5 Llywodraeth yn yr Oes Wybodaeth

Mae Swyddfa Cymru'n hyfforddi'r holl staff yn y defnydd o system reoli cofnodion electronig yr Adran Materion Cyfansoddiadol. Galluogodd hyn ni i gydymffurfio yn fwy effeithiol gyda dyletswyddau statudol, gan gynnwys y rheiny dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae gan y staff i gyd fynediad at y Rhyngwyd ac mae gan yr Adran ei gwefan ddwyieithog ei hun, gyda dolen i aelodau o'r cyhoedd gysylltu â ni drwy e-bost (wales.office@walesoffice.gsi.gov.uk).

Mae Swyddfa Cymru wrthi'n datblygu ei gwefan i ddarparu gwybodaeth sy'n haws ei chanfod ynghylch rhaglen deddfwriaeth sylfaenol y Llywodraeth fel y mae hi'n berthnasol i Gymru. Bydd hefyd yn rhoi gwybodaeth am gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

5.6 Penodiadau Cyhoeddus

Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfrifol am wneud unrhyw benodiadau cyhoeddus ar ei ben ei hun. Pan fydd yn penodi ar y cyd gydag eraill, mae'r Adran yn dilyn trefniadau gweithredu sy'n sicrhau mai'r ymgeiswyr mwyaf cymwys yn unig sy'n cael eu dethol. Gwneir penodiadau cyhoeddus yn unol â'r canllawiau a eglurwyd yn Arweiniad ynghylch Penodiadau i Gyrrff Cyhoeddus y Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2003.

5.7 Yr Iaith Gymraeg

Mae Swyddfa Cymru wedi ymrwmo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Yn unol â'r Cynllun Iaith Gymraeg a ddaeth i rym ar 28 Mai 2004 mae cyhoeddiadau a hysbysiadau i'r wasg ar gael yn y ddwy iaith. Bydd Swyddfa Cymru'n ateb yn Gymraeg i unrhyw un sy'n ysgrifennu neu anfon neges e-bost yn Gymraeg, a throsglwyddir galwadau ffôn i siaradwr Gymraeg pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl.

Yn dilyn trafodaethau, rydym wedi cytuno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg y byddwn yn adolygu ein Cynllun Iaith Gymraeg, yn ystod 2007-08 yn unol â system adrodd newydd y Bwrdd.

5.8 Recriwtio Staff Swyddfa Cymru

Mae Swyddfa Cymru'n recriwtio staff yn unol â Gorchymyn y Gwasanaeth Sifil yn y Cyfrin Gyngor 1995. Caiff pob unigolyn a benodir ei ddethol yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth agored a theg, ar wahân i achosion lle y caniateir eithriadau dan Erthyglau 6 a 7 y Gorchymyn. I'r diben hwn:

- rhoddir mynediad cyfartal a rhesymol i ddarpar ymgeiswyr at wybodaeth ddigonol am y swydd a'i gofynion ac am y broses ddethol;
- ystyrir ymgeiswyr yn gyfartal yn ôl teilyngdod ar bob cam yn y broses ddethol;
- mae'r dewis yn seiliedig ar feini prawf perthnasol a gymhwysir yn gyson i'r holl ymgeiswyr;
- mae'r technegau dethol wedi eu llunio i fod yn ddibynadwy ac i amddiffyn rhag tuedd;
- mae polisiau cyfle cyfartal yn berthnasol drwy gydol y broses recriwtio.

5.9 Niferoedd Staff

Niferoedd Staff					
Blynyddoedd staff –		2005-06	2006-07	2007-08	2008-09
Cyferth ag amser llawn		gwirioneddol	gwirioneddol	cynlluniau	cynlluniau
Staff parhaol	Polisi	38	44	46	46
	Gweithredol	13	11	14	14
Staff achlysurol		2	1	1	1
Goramser		1	1	1	1
CYFANSWM		54	57	62	62

5.10 Polisiau Cyfle Cyfartal Swyddfa Cymru

Rydym yn glynu wrth bolisi'r Adran Materion Cyfansoddiadol.

Amrywiaeth

Mae oddeutu 14 y cant o staff yr Adran o darddiad Ethnig Lleiafrifol.

Merched

Mae merched yn ffurfio 51 y cant o'r staff.

Dengys y tabl isod y nifer o ferched mewn swydd ym mhob gradd ar 31 Mawrth 2007

Gradd	Staff mewn swydd	Nifer y merched
SCS	1	0
Grade 6	6	1
Grade 7	4	2
SEO	8	6
HEO	11	7
EO	17	7
AO	8	5
AA	2	1

Pobl ag Anableddau

Mae gan Swyddfa Cymru ychydig o staff ag anableddau. Am resymau preifatrwydd ni roddir unrhyw fanylion, yn unol ag arweiniad Swyddfa'r Cabinet.

Mae Swyddfa Cymru yn cydymffurfio â'r gofynion dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Rydym yn cael Archwiliadau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn rheolaidd a disgwyliwn i'r ddau adeilad gael eu harchwilio yn 2007–08.


5.11 Llywodraeth Gorfforaethol Swyddfa Cymru

Bwrdd Rheoli

Yn ystod 2006-07 ailddiffiniwyd y Bwrdd o ran ei aelodaeth a'i Faes Gorchwyl. Mewn ymateb i awgrym yn nigwyddiad staff y Swyddfa, rydym wedi sefydlu Bwrdd Rheoli Cysgodol. Mae hynny'n galluogi staff o bob gradd ar draws y Swyddfa i roi mewnbyn i'r Bwrdd Rheoli ar y materion sydd dan ystyriaeth, ac awgrymu materion y dylai'r Bwrdd eu hystyried. Mae aelodaeth a Maes Gorchwyl y Bwrdd wedi eu gosod ar ein gwefan.

Pwyllgor Archwilio

Yn cydreddeg gyda'r gwaith ar y Bwrdd Rheoli, cafodd y Pwyllgor Archwilio ei gryfhau drwy ychwanegu ail gyfarwyddwr anweithredol. Mae ei Faes Gorchwyl wedi ei alinio gydag arweiniad newydd Trysorlys Ei Mawrhydi ar lywodraeth gorfforaethol yn y sector cyhoeddus. Cynyddwyd cyfarfodydd y Pwyllgor i bedwar y flwyddyn ac maent wedi eu cynllunio ar sail y dyddiadau blynyddol, chwarterol a dyddiadau allweddol eraill ar gyfer gweithredu ar y cyfrifon, datganiadau rheolaeth fewnol, amcangyfrifon ac ati. Mae'r Pwyllgor hefyd yn adolygu'n rheolaidd y broses rheoli risg a fabwysiadwyd gan y Swyddfa. Cynhaliodd y Cadeirydd anweithredol adolygiad o weithrediad y pwyllgor ym mis Ionawr 2007 gyda chefnogaeth gan archwilwyr mewnol ac allanol. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylai'r Pwyllgor, yn unol ag arfer orau, nodi trydydd aelod anweithredol. Gan gymryd i ystyriaeth yr holl newidiadau a ddechreuwyd yn 2006-07 daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y pwyllgor bellach yn gweithredu yn unol ag arfer orau fel y'i disgrifiwyd yn Arweiniad Trysorlys Ei Mawrhydi.



Gwariant y Llywodraeth yng Nghymru

Pennod 6: Gwariant y Llywodraeth yng Nghymru

6.1 Cyllido Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'r trefniadau cyllido rhwng Llywodraeth y D.U. a Chynulliad Cenedlaethol Cymru wedi eu hegluro ym mhedwerydd argraffiad y Datganiad o Bolisi Cyllido, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2004 gan Drysorlys Ei Mawrhydi ac mae hefyd yn cynnwys y trefniadau cyllido ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r trefniadau'n cynrychioli, i raddau helaeth, barhad confensiynau sydd wedi eu hen sefydlu oedd yn arwain y cyllido ar gyfer Cymru (yn ogystal â'r Alban a Gogledd Iwerddon) cyn datganoli.

Erys y cyfrifoldeb am bolisi cyllidol y D.U., polisi macro economaidd a dyraniad gwariant cyhoeddus ar draws y Deyrnas Unedig gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi. O ganlyniad, mae cyllideb y Cynulliad yn parhau i gael ei benderfynu o fewn fframwaith rheoli gwariant cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, unwaith y mae cyllidebau gwariant cyhoeddus cyffredinol wedi cael eu penderfynu, mae gan y Cynulliad y rhyddid i wneud ei benderfyniadau gwario ei hun, o fewn y cyfanswm cyffredinol, ar y rhaglenni y mae ganddo ef y cyfrifoldeb amdanynt.

Penderfynir cyllid Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer cyllideb Cynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn adolygiadau gwariant ochr yn ochr ag Adrannau Llywodraeth y D.U. Fel arfer, mae cyswllt rhwng y newidiadau yn y ddarpariaeth gyllidol ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig a newidiadau yn y gwariant cynlluniedig ar wasanaethau cyhoeddus cymharol gan Adrannau'r D.U. Llwyddir i wneud y cyswllt hwn drwy gyfrwng fformiwla sy'n seiliedig ar boblogaeth (fformiwla 'Barnett'). Mae Senedd y D.U. yn pleidleisio dros y ddarpariaeth angenrheidiol i'r Ysgrifennydd Gwladol, sydd, yn ei dro, yn gwneud taliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel yr eglurwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 (ac ar gyfer 2007-08 i Gronfa Gyfunol Cymru dan Ddeddf 2006). Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadw darpariaeth ar gyfer costau Swyddfa Cymru o gyfanswm yr arian y pleidleisiwyd drosto gan Lywodraeth y D.U.

Roedd Adolygiad Gwariant 2004 yn darparu adnoddau ychwanegol sylweddol i Gymru. Uchafswm Cyfanswm y Gwariant Adrannol (DEL) ar gyfer Cymru oedd £10.985 biliwn yn 2004-05 yn codi i £11.826 biliwn yn 2005-06; a £12.768 biliwn yn 2006-07. Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli cynnydd blynyddol o 4 y cant mewn termau gwirioneddol dros y tair blynedd. Gydag ychwanegiad o godiadau sylweddol a gyhoeddwyd gan y Canghellor yn ei adroddiad cyn y Gyllideb ac yng nghyllideb y flwyddyn hon, gan ychwanegu Gwariant a Reolir yn Flynyddol (y mae ei lefel yn cael ei adolygu bob blwyddyn) mae'r holl gyllid fydd yn cael ei gyfeirio drwy Swyddfa Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i fod yn agos i £14 biliwn yn 2007-08, bron i 3 biliwn yn fwy nag yn 2004-05. Mae Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr 2007 (CSR07) wedi hen ddechrau gyda Gweinidogion Swyddfa Cymru yn cael trafodaethau llawn gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi i barhau i sicrhau trefniadau ariannol teg i Gymru. Gan na ddisgwylir i'r CSR07 gael ei gwblhau tan yr Hydref, bydd Swyddfa Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi i sicrhau y bydd dibyniadau Barnett fydd i unrhyw drefniadau CSR pellach gydag Adrannau'r D.U. yn dod i Gymru hefyd.

6.2 Cyfanswm y Gwariant Cyhoeddus Canfyddadwy yng Nghymru

Yn 2006-07 roedd y gwariant cyhoeddus y gellir canfod ei fod wedi ei achosi er budd Cymru yn dod i gyfanswm o £24.233 biliwn, sy'n cyfateb i £8,139 y pen neu tua 11 y cant uwchlaw cyfartaledd y D.U. Am ragor o wybodaeth gweler Dadansoddiad Ystadegol Gwariant Cyhoeddus 2007.

6.3 Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan

Mae Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfranogwyr ym mhroject Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan a arweinir gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

6.4 Cyllideb y Cynulliad

Y Cynulliad sydd i benderfynu sut y mae'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddo, gan gynnwys cost rhedeg a gwariant y rhaglen. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi neilltuo adnoddau i weithredu diwygiadau a gwella'r canlyniadau yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae ganddo ymrwymiad parhaus i wella perfformiad economaidd Cymru ac i gulhau bwlch y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth gyda Lloegr. Mae Swyddfa Cymru'n gwbl gefnogol i'r amcanion hyn.

Gellir gweld cyllideb y Cynulliad ar ei wefan yn www.cymru.gov.uk

6.5 Cyllideb 2007

Ers Adolygiad Gwariant 2004, mae adnoddau ychwanegol wedi dod ar gael yn yr Adroddiadau cyn y Gyllideb ac yn y Cyllidebau. Fe draddododd Canghellor y Trysorlys ei Gyllideb ar 21 Mawrth 2007, gan gyhoeddi £1 biliwn yn ychwanegol i Gymru o ganlyniad i gynnydd yn y cyllid yn Lloegr. Gweinidogion y Cynulliad sydd i benderfynu sut i wario'r arian hwn yng Nghymru. Mae copïau o fanylion llawn y Gyllideb ar gael ar wefan Trysorlys Ei Mawrhydi ar www.hm-treasury.gov.uk

6.6 Gwariant gan Swyddfa Cymru

Mae gwariant Swyddfa Cymru ei hun yn ffurfio rhan o gyllideb Cymru. Ar wahân i'r grant y mae yn ei dalu i'r Cynulliad mae gwariant yr Adran yn cynnwys:


- ei threuliau gweithredol ei hun
- costau'r Arglwyddi Rhaglaw; a
- Thribiwnlys Cam-drin Plant Gogledd Cymru

6.7 Newidiadau i Uchafswm Gwariant Adrannol Cymru ar gyfer 2004-05 i 2007-08 ers PESA 2004

Dengys y tabl yn Atodiad 3 Uchafswm Gwariant Adrannol Cymru (DEL) ynghyd â'r llinell gychwynnol o Adolygiad Gwariant 2004.



SWYDDFA CYMRU



Atodiadu



1. Deddfau gyda darpariaethau neu oblygiadau penodol i Gymru yn Sesiwn 2005-06
2. Mesurau a Deddfau gyda darpariaethau neu oblygiadau penodol i Gymru yn Sesiwn 2006-07
3. Newid i Uchafswm Gwariant Adrannol Cymru ar gyfer ar gyfer 2004-05 i 2007-08 ers PESA 2004
4. Uchafswm Gwariant Adrannol – Cymru
5. Y grant oedd yn daladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 2003-04: Darpariaeth ac Alldro
6. Y grant oedd yn daladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 2004-05: Darpariaeth Wreiddiol a Therfynol
7. Cysoniad y grant oedd yn daladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda Chyfanswm y Gwariant a Reolir i Gymru 2005-06
8. Cyflogau Uwch Weision Sifil
9. Nodyn o Eglurhad

Atodiad 1: Deddfau â darpariaethau neu oblygiadau penodol i Gymru yn Sesiwn 2005-06

Deddfau Cymru-yn-unig	Deiliant	Nodiadau
Deddf Llywodraeth Cymru	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 25 Gorffennaf 2006	Mae'n darparu ar gyfer gwella pwerau deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol; mae'n rhoi terfyn ar statws of corfforaethol dryslyd y Cynulliad; ac mae'n gwneud newid i'r system etholiadol ar gyfer y Cynulliad.
Deddf Comisiynydd dros Bobl Hŷn (Cymru)	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 25 Gorffennaf 2006	Mae'n sefydlu Comisiynydd gyda'r ddyletswydd i hybu a diogelu diddordebau pobl hŷn yng Nghymru.
Deddf Cludiant (Cymru)	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 16 2006	Mae'n gosod dyletswydd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i baratoi strategaeth gludiant ac mae'n ei gwneud yn bosibl datblygu gwasanaethau cludiant cyhoeddus mwy integredig.
Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru)	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 8 Tachwedd 2006	Mae'n cadarnhau deddfwriaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i Gymru.

Deddf	Deiliant	Nodiadau
Deddf Lles Anifeiliaid	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 8 Tachwedd 2006	Mae'n sicrhau gwell amddiffyniad i anifeiliaid y mae pobl yn edrych ar eu hŵl drwy gyflwyno'r cysyniad o ddyletswydd gofal. Yng Nghymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru fydd yn gweinyddu'r holl reoliadau a'r pwerau i wneud gorchmynio.
Deddf Elusennau	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 8 Tachwedd 2006	Mae'n rhoi diffiniad clir o elusen gyda'r pwyslais ar fudd i'r cyhoedd. Mae'n gwella'r rheolaeth ar godi arian at elusennau. Penodir Comisiynydd i gynrychioli diddordebau Cymru ar ôl ymgynghori gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru.
Deddf Gofal Plant	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 11 Gorffennaf 2006	Mae'n gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol yn Nghymru i sicrhau darpariaeth gofal plant, ac mae'n rhoi pwerau i'r Cynulliad i sicrhau perfformiad cywir.
Deddf Plant a Mabwysiadu	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mehefin 2006	Mae'n creu pwerau Llys newydd i orfodi gorchmynion cyswllt. Mae'n ymestyn rôl CAFCASS Cymru mewn gorchmynion cyswllt mewn achosion teuluol.
Deddf Newid Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mehefin 2006	Mae'n gwella gallu'r Deyrnas Unedig i ddelio â'r newid hinsawdd; mae wedi ei bwriadu i liniaru tlogi tanwydd gan hybu micro-gynhyrchu a gwres o ffynonellau adnewyddadwy. Mae'r darpariaethau'n cynnwys rôl awdurdodau lleol, effeithlonrwydd ynni, rheoliadau adeiladu, rhwymedigaeth ynni adnewyddadwy a thaliadau trosglwyddo am drydan. Mae'n caniatáu i'r Cynulliad benderfynu faint o bwerau i'w rhoi i gynghorau cymuned i hybu mesurau lleol ar gyfer arbed ynni.



Deddf Awyrennau Sifil	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 8 Tachwedd 2006	Mae'n awdurdodi cwmnïau meysydd awyr llywodraeth leol i ymgymryd â gweithgareddau ar y cyd i'w cynorthwyo i gystadlu â meysydd awyr mewn perchnogaeth breifat. Bydd darpariaethau cysylltiedig â phwerau cwmnïau meysydd awyr llywodraeth leol yn berthnasol i Gymru.
Deddf Tir Comin	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 19 Gorffennaf 2006	Mae'n creu pwerau cofrestru a phenderfynu newydd i sicrhau bod tir comin yn cael ei amddiffyn yn well. Y Cynulliad fydd yr awdurdod cenedlaethol priodol yng Nghymru.
Deddf Diwygio Cyfraith Cwmnïau	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 8 Tachwedd 2006	Mae'n gwneud sefydlu cwmni yn haws. Bydd gan gwmnïau sydd wedi eu cofrestru yng Nghymru y dewis o hyd i ddefnyddio "cwmni cyfyngedig cyhoeddus" neu "cyfyngedig" yn lle "public limited company" neu "limited".
Deddf Addysg ac Arolygiadau	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 8 Tachwedd 2006	Mae'n darparu mwy o bwerau ymyrryd ar gyfer ysgolion sy'n fethiant. Y Cynulliad fydd yr awdurdod priodol yng Nghymru. Mae'n cynnwys pŵer fframwaith i'r Cynulliad.
Deddf Gweinyddiaeth Etholiadol	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 11 Gorffennaf 2006	Mae'n cyflwyno darpariaethau sydd wedi eu bwriadu i gynyddu lefelau cofrestru, gan annog mwy o bobl i bleidleisio, a gwella diogelwch y broses ethol. Caiff etholiadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu rheoli ar wahân gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru dan adran 11 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 yn cymhwyso newidiadau perthnasol i etholiadau'r Cynulliad.
Deddf Cydraddoldeb	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 16 Chwefror 2006	Mae'n darparu ar gyfer sefydlu Comisiwn newydd ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Ymgynghorir gyda'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch penodi Comisiynydd i gynrychioli.
Deddf Iechyd	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 19 Gorffennaf 2006	Mae'n anelu at wneud manau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig yn rhydd o fwg a chanolbwytio'n fwy manwl ar heintiau MRSA. Rhydd bwerau i'r Cynulliad weithredu ei bolisi ei hun ar wahardd ysmegu mewn manau cyhoeddus.
Deddf Corfforaethau Tai (Dirprwyaeth) etc	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 19 Gorffennaf 2006	Mae'n diwygio Deddf Cymdeithasau Tai 1985. Mae'n dilysu'n ôl-weithredol rai gweithredoedd gan y Gorfforaeth Dai a'r Tai i Gymru blaenorol, lle y gallai amheuan fod wedi codi fel arall ynghylch effaith y gweithredoedd hynny. Mae'r gweithredoedd yn cynnwys rhai trefniadau dirprwyo a rhai gweithredoedd yn cynnwys defnyddio'u seliau.
Deddf Cardiau Adnabod	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 20 Mawrth 2006	Mae'n caniatáu i'r Cynulliad benderfynu a ddylai cyflwyno'r cerdyn fod yn ofyniad wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi eu datganoli.
Deddf Diwygio Deddfwriaeth a Rheoliadau	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 8 Tachwedd 2006	Mae'n ehangu'r cyfle i ddileu deddfwriaeth feichus drwy ddarparu pwerau mwy ar gyfer defnyddio Gorchymynion Diwygio Rheoliadau. Mae'n darparu ar gyfer cydsyniad y Cynulliad lle bo angen.

Deddf Gemau Olympaidd	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 30 Mawrth 2006	Mae'n creu corff cyhoeddus i gyd-drefnu a rheoli'r rhan a chwaraeir gan y sector cyhoeddus ac i ateb gofynion y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol mewn perthynas â'r amgylchedd, hysbysebu a marchnata. Mae'n rhoi rhai swyddogaethau i'r Cynulliad Cenedlaethol o ran rheoli a gwneud gorchmynion cysylltiedig â chyfyngiadau ar hysbysebu a masnach fel y maent i gael eu cymhwyso i leoliadau Olympaidd yng Nghymru.
Deddf Y Loteri Genedlaethol	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 11 Gorffennaf 2006	Mae'n sefydlu Cronfa'r Loteri Fawr. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu rhoi cyfarwyddiadau a gosod blaenoriaethau penodol o ran gwariant Cronfa'r Loteri Fawr yng Nghymru.
Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 30 Mawrth 2006	Mae'n dwyn ynghyd English Nature gyda rhannau o Asiantaeth Cefn Gwlad a'r Gwasanaeth Datblygu Gwledig i greu Natural England, asiantaeth integredig ar gyfer amddiffyn yr amgylchedd naturiol yn Lloegr. Mae'r corff hwn yn debyg i Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae'r goblygiadau i Gymru'n cynnwys pwerau newydd ar gyfer diwygio'r cyrff treth amaethyddol, ail-gyfansoddi'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur a dileu nifer o bwylgorau statudol sydd bellach wedi dod i ben, gan gynnwys y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ffermio Mynydd.
Deddf Unioni Camweddau y GIG	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 8 Tachwedd 2006	Mae'n darparu ar gyfer cynllun unioni camwedd a iawndal pan fo gofal iechyd yn mynd o'i le. Mae'n cynnwys pŵer fframwaith ar gyfer y Cynulliad.
Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 8 Tachwedd 2006	Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch yr heddluoedd a throstedd ac anhrefn. Mae gan y Cynulliad y grym i roi arweiniad i awdurdodau lleol Cymru ynghylch materion trostedd ac anhrefn.
Deddf Diogelwch ar y Ffyrdd	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 8 Tachwedd 2006	Mae'n cynnwys darpariaethau i wella diogelwch ar y ffyrdd a chynorthwyo i gyrraedd targedau lleihau marwolaethau. Bydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'r grym i wneud trefniadau ar gyfer manau gorffwys a phicnic ar draffyrdd.
Deddf Lleihau Troseddau Treisgar	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 8 Tachwedd 2006	Bydd yn gwella'r rheolaeth dros gario arfau a ffug arfau, ac yn moderneiddio darpariaethau o ran troseddau treisgar eraill. Y Cynulliad Cenedlaethol fydd yn penderfynu a ddylai penaethiaid ysgolion yng Nghymru gael yr hawl i chwilio plant.

Atodiad 2: Mesurau a Deddfau gyda darpariaethau neu oblygiadau penodol i Gymru yn Sesiwn 2006-07

Mesurau a Deddfau'r Llywodraeth	Cynnydd	Nodiadau
Mesur Consesiynau Teithio ar Fws	Darlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi 6 Chwefror 2007	Mae'n darparu ar gyfer teithio am ddim yn genedlaethol ar fysiau ac eithrio ar yr adegau prysuraf i'r rhai dros 60 oed a phobl anabl yn Lloegr. Mae grym i wneud gorchymyn wedi ei gynnwys i alluogi Cymru a Lloegr i gydnabod tocynnau rhad y naill a'r llall, a rhai'r Alban a Gogledd Iwerddon, pan fydd yr holl bartion wedi cytuno ar y trefniadau ymarferol ar gyfer adnabod tocynnau ar draws y Deyrnas Unedig.
Mesur Defnyddwyr, Gwerthwyr Tai ac Unioni Camweddau	Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin 19 Mawrth 2007	Mae'n darparu ar gyfer sefydlu'r Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol a'i swyddogaethau; mae'n darparu ar gyfer dileu cyrff defnyddwyr eraill; mae'n darparu ar gyfer cyflenwyr neilltuol yn ymdrin â chwynion defnyddwyr a cheir darpariaeth sy'n gofyn i rai cyflenwyr fod yn aelodau o gynlluniau unioni camweddau o ran cwynion defnyddwyr; mae'n newid Deddf Gwerthwyr Tai 1979; mae'n darparu ar gyfer dileu rhai contractau a gwblheir oddi ar safle'r busnes.
Mesur Dynladdiad Corfforaethol a Galanas Gorfforaethol	Trydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi 28 Chwefror 2007	Mae'n darparu ar gyfer ei gwneud yn haws erlyn cyrff pan fo eu hesgeulustod dybryd yn arwain at farwolaeth, drwy ddarparu sail newydd fwy effeithiol ar gyfer atebolrwydd corfforaethol.
Mesur Newid i'r Digidol Ddatgelu Gwybodaeth)	Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi 28 Chwefror 2007	Mae'n darparu ar gyfer datgelu peth gwybodaeth ddibenion cysylltiedig â'r newid i'r digidol.
Mesur Twyll (Treial heb Reithgor)	Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi 20 Mawrth 2007	Mae'n gwneud newidiadau i adran 43 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, fyddai'n ei gwneud yn bosibl cynnal Treialon am dwyll difrifol a chymhleth heb reithgor.
Mesur Addysg a Hyfforddiant Pellach	Darlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin 7 Mawrth 2007	Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch Cyngor Addysg a Sgiliau Lloegr; mae'n gwneud darpariaeth ynghylch sefydliadau o fewn y sector addysg bellach; mae'n gwneud darpariaeth gyda golwg ar drethi hyfforddiant diwydiannol; mae'n gwneud darpariaeth ynghylch corfforaethau addysg uwch yn ffurfio, a buddsoddi mewn, cwmnïau a chyrrff elusenol corfforedig; mae'n peri bod modd gwneud Mesurau'r Cynulliad mewn perthynas â maes addysg a hyfforddiant.
Deddf Cyfnewidfeydd Buddsoddiadau a Clirio	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 19 Rhagfyr 2006	Mae'n rhoi pŵer i Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol i wrthod darpariaeth reolaethol ormodol gan gyfnewidfeydd buddsoddiadau a thai clirio.
Mesur Gwasanaethau Cyfreithiol	Cam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi 6 Mawrth 2007	Mae'n cyflwyno rheolaeth gwasanaethau cyfreithiol drwy sefydlu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol fel rheolydd annibynnol a Swyddfa newydd ar gyfer Cwynion Cyfreithiol.

Mesur Cyfranogaeth Llywodraeth Leol a'r Cyhoedd mewn Iechyd	Wedi cwblhau Cam Pwyllgor Mesur Cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin 8 Mawrth 2007	Mae'n rhoi pwerau fframwaith i'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud darpariaeth ar ystod o faterion llywodraeth leol. Rhydd bwerau i Weinidogion Cymru o ran Gwerth Gorau ac is-ddeddfau.
Mesur Iechyd Meddwl	Darlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin 7 Mawrth 2007	Mae'n diwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Gallu Meddyliol 2005 mewn perthynas ag unigolion ag anhwylder meddyliol.
Mesur Rheoli Troseddwy	Trydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin 28 Chwefror 2007	Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch gwasanaethau prawf, carchardai a materion eraill cysylltiedig â rheoli troseddwy.
Mesur Pensiynau	Cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin 23 Ionawr 2007	Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch pensiynau a budd-daliadau eraill sy'n daladwy i unigolion yn gysylltiedig â phroffedigaeth neu mewn perthynas ag oed pensiwn; mae'n gwneud darpariaeth ynghylch sefydlu'r Awdurdod Darparu Cyfrifon Personol a'i swyddogaethau.
Mesur Troseddau Difrifol	Cam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi 14 Mawrth 2007	Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch gorchmynion atal troseddu difrifol; mae'n creu troseddau o ran annog neu gynorthwyo troseddwr; mae'n ei gwneud yn bosibl rhannu neu brosesu gwybodaeth i atal twyll ac mae'n ei gwneud yn bosibl cydweddu data.
Mesur y Gwasanaeth Cofrestru ac Ystadegau	Darlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi 14 Mawrth 2007	Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch y Bwrdd Ystadegau; Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch swyddi a deiliaid swyddi dan Ddeddf Gwasanaeth Cofrestru 1953.
Mesur Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth	Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin 5 Mawrth 2007	Mae'n symleiddio system y tribiwnlysoedd, mae'n sefydlu Cyngor Gweinyddol Cyfiawnder a Thribiwnlysoedd.
Mesur Ffiniau'r Deyrnas Unedig	Cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin 27 Chwefror 2007	Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch mewnfudiad a lloches.
Mesur Diwygio Lles	Cam Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi 19 Mawrth 2007	Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch nawdd cymdeithasol ac mae'n diwygio Deddf Taliadau Niwed Brechlyn 1979.

Atodiad 3: Newidiadau i Uchafswm Gwariant Adrannol Cymru ar gyfer 2004-05 i 2007-08 ers PESA 2005

TABL 1⁽¹⁾

	2004-05 £m Alldro	2005-06 £m Yr Alldro a Amcangyfrifir	2006-07 £m Cynlluniau	2007-08 £m Cynlluniau
Sefyllfa wrth gyhoeddi PESA 2006 (Tabl 1.12) ar ôl dibrisiant ac amhariadau	11,180	12,076	12,832	13,649
dibrisiant ac amhariadau	197	313	257	259
Adolygu'r alldro	-73	-299	-103	0
Camerâu Diogelwch yr Heddlu	0	0	0	9
Manteisio ar Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn	0	0	99	0
Mesurau PBR 2006	0	0	0	9
Budd-dal Treth Gyngor	0	0	16	0
Pensiynau Tân	0	0	0	-12
Trosglwyddo EMAs i DEL	9	22	30	33
Trosglwyddiadau Rhyngadrannol	74	82	102	126
<i>Is-gyfanswm</i>	<i>10</i>	<i>-195</i>	<i>144</i>	<i>165</i>
DEL cyfalaf ynghyd â DEL adnoddau	11,385	12,195	13,336	14,073
Wedi tynnu dibrisiant ac amhariadau	-197	-313	-257	-259
Sefyllfa wrth gyhoeddi PESA 2007 (Tabl 1.12) ar ôl dibrisiant ac amhariadau	11,187	11,882	13,080	13,813

(1) Efallai na fydd y cyfansymiau yn rhoi'r swm terfynol oherwydd talgrynnu.

Atodiad 4: Uchafswm Gwariant Adrannol – Cymru⁽²⁾TABL 2⁽¹⁾

	2001-2002 alldro £'000	2002-2003 alldro £'000	2003-2004 alldro £'000	2004-2005 alldro £'000	2005-2006 alldro £'000	2006-2007 darpariaeth £'000	2007-2008 darpariaeth £'000
Adnodd							
Costau Gweinyddu Swyddfa Cymru	2,463	3,037	2,949	3,705	3,969	4,769	3,760
Swyddfa Cymru – arall ⁽³⁾	75	95	93	98	253	373	153
Cyfanswm yr Adnodd	2,538	3,132	3,042	3,803	4,222	5,142	3,913
Cyfalaf							
Swyddfa Cymru	18	34	51	194	127	766	766
DEL Swyddfa Cymru⁽²⁾⁽⁴⁾⁽⁵⁾	2,536	3,129	3,058	3,962	4,220	5,873	4,644
Adnoddau CCC (Bron yn arian)	7,588,362	8,516,545	9,415,161	10,076,118	10,639,573	11,410,601	11,924,273
Adnoddau CCC (Heb fod yn arian)	296,443	369,969	226,944	293,979	324,447	490,113	499,481
Cyfalaf CCC	919,616	1,004,307	984,866	1,008,132	1,208,350	1,405,207	1,616,737
DEL CCC ⁽⁵⁾	8,632,913	9,706,277	10,510,047	11,250,186	11,997,009	13,089,126	13,777,164
Cyfanswm Bloc Cymru⁽⁴⁾⁽⁵⁾	8,635,449	9,709,406	10,513,105	11,254,148	12,001,229	13,094,999	13,781,808

(1) Efallai na fydd y cyfansymiau yn rhoi'r swm terfynol oherwydd talgrynnu.

(2) Pleidleisiwyd ar y Gwariant ar Amcangyfrif yr Adran Materion Cyfansoddiadol, Cais am Adnoddau 3, i gefnogi'r Ysgrifennydd Gwladol wrth iddo gyflawni ei rôl yn cynrychioli Cymru yn Llywodraeth y D.U., cynrychioli Llywodraeth y D.U. yng Nghymru, a sicrhau bod y trefniant datganoli yn rhedeg yn rhwydd yng Nghymru

(3) Yn cynnwys dibrisiant

(4) Adnodd + chyfalaf – dibrisiant.

(5) Yn ôl confensiwn, mynegir Uchafswm y Gwariant Adrannol fel adnodd a chyfalaf ar ôl tynnu dibrisiant. Felly, ni fydd cyfanswm y niferoedd adnodd a chyfalaf yn y tabl hwn yn rhoi Uchafswm y Gwariant Adrannol; y gwahaniaeth yw'r dibrisiant.

Atodiad 5: Y grant taladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 2005-06: Y Ddarpariaeth Wreiddiol a Therfynol

TABL 3⁽¹⁾

	Darpariaeth Wreiddiol £m	Darpariaeth Derfynol £m	Yr Alldro Terfynol £m
Gwariant a ddosberthir fel DEL ⁽²⁾	12,242	12,488	
Gwariant a ddosberthir fel AME	500	554	
Cyfanswm y Gwariant a Reolir	12,743	13,042	0
Tynnu:			
Gwariant dibleidlais			
Credyd LA a gymeradwywyd	163	163	
Arall dibleidlais	6	6	
Newidiadau i'r Cyllid Adnodd			
Amseru	40	40	
Dibrisiant	175	272	
Cost Cyfalaf	422	422	
Arall	42	42	
Cyfanswm y Newidiadau i'r Cyllid Adnodd	679	776	0
CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR DIBLEIDLAIS	849	945	0
CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR GYDA PHLEIDLAIS	11,894	12,096	0
Derbyniadau y pleidleisiwyd arnynt			
Derbyniadau o'r Undeb Ewropeaidd	-234	-234	
Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Cenedlaethol	-822	-743	
Derbyniadau gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig	-220	-274	
Cyfanswm	-1,276	-1,251	0
CYFANSWM GRANT Y CYNULLIAD	10,618	10,845	0

(1) Efallai na fydd y cyfanswmiau yn rhoi'r swm terfynol oherwydd talgrynnu.

(2) Mae DEL adnodd a chyfalaf yn cynnwys dibrisiant.

Atodiad 6: Cysoniad y grant taladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda Chyfanswm y Gwariant a Reolir ar gyfer Cymru 2006-07

TABL 4⁽¹⁾

	Darpariaeth Wreiddiol £'000	Darpariaeth Derfynol £'000	Yr Alldro a Amcangyfrifir £'000
Gwariant a ddosberthir fel DEL ⁽²⁾	13,088,818	13,305,921	
Gwariant a ddosberthir fel AME	320,146	1,433,073	
Cyfanswm y Gwariant a Reolir	13,408,964	14,738,994	0
Wedi tynnu:			
Gwariant dibleidlais:			
Credyd LA a gymeradwywyd	163,396	163,396	
Arall dibleidlais	6,078	6,078	
Adnodd heb fod yn arian	422,466	447,246	
Cefnogaeth Myfyrwyr (heb fod yn arian)	0	42,867	
CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR DI-BLEIDLAIS	591,940	659,587	0
CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR GYDA PHLEIDLAIS	12,817,024	14,079,407	0
Derbyniadau y pleidleisiwyd arnynt			
Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Cenedlaethol	-807,841	-807,091	
Cyfanswm	-807,841	-807,091	0
Ynghyd â:			
Arian Cefnogi Myfyrwyr	171,231	0	
Trethi Annomestig – newid yr amseru	0	44,000	
Tai – Cyfraniadau'r Trysorlys	0	1,004	
CYFANSWM GRANT Y CYNULLIAD	12,180,414	13,317,320	0
(1) Efallai na fydd y cyfanswmiau yn rhoi'r swm terfynol oherwydd talgrynnu.			
(2) Mae DEL adnoddau a chyfalaf yn cynnwys dibrisiant.			

Atodiad 7: Cysoni'r Grant Taladwy i Gronfa Gyfunol Cymru 2007-08

TABL 5⁽¹⁾	
	2007-08 Darpariaeth Wreiddiol £'000
Gwariant a ddosberthir fel DEL	14,073,067
Gwariant a ddosberthir fel AME	539,728
Cyfanswm y Gwariant a Reolir	14,612,795
<i>Tynnu</i>	
Gwariant dibleidlais:	
Credyd LA a gymeradwywyd	163,396
Arall dibleidlais	6,078
Adnodd heb fod yn arian	499,481
AME heb fod yn arian	375,948
CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR DI-BLEIDLAIS	1,044,903
CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR GYDA PHLEIDLAIS	13,567,892
Derbyniadau y pleidleisiwyd arnynt	
Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Cenedlaethol	-890,566
Derbyniadau Treth Annomestig	-817,500
Cyfanswm	-1,708,066
CYFANSWM Y GRANT I GRONFA GYFUNOL CYMRU	11,859,826



Atodiad 8: Cyflogau Uwch Weision Sifil

Cyflogau Uwch Weision Sifil yn Swyddfa Cymru ar 31ain o Fawrth 2007:

Mae gan Swyddfa Cymru un aelod o'r Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) wedi ei raddio ym mand cyflog 2 yn yr ystod gyflog £80,000 – £160,000.





Atodiad 9: Nodyn o Eglurhad

Sefydlwyd Swyddfa Cymru ar 1 Gorffennaf 1999 yn dilyn datganoli.

Ym mis Mehefin 2003 daeth Swyddfa Cymru yn endid ar wahân o fewn yr Adran Materion Cyfansoddiadol ond mae hi'n adrodd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac yn ei gefnogi.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn, sydd i ddibenion cyfrifyddol yn rhan o Adroddiad Datblygol yr Adran Materion Cyfansoddiadol ar wariant cyhoeddus, yn cyflwyno i'r Senedd gynlluniau gwariant y Llywodraeth i'r dyfodol ar gyfer Swyddfa Cymru, gan gynnwys y grant mae hi'n ei wneud i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau cyffredinol ynghylch yr adroddiad blynyddol anfonwch hwy, os gwelwch yn dda, at Amanda Latham, Pennaeth Cyllid a Gweinyddiaeth, Swyddfa Cymru, Gwydyr House, Whitehall, Llundain SW1A 2ER (Ffôn: 020 72700534 neu e-bost: Amanda.Latham@walesoffice.gsi.gov.uk).

Fel arall, gellir cael gwybodaeth bellach ar ein gwefan: www.walesoffice.gov.uk. Mae fersiwn Gymraeg y wefan yn www.swyddfa.gov.uk

Mae'r adroddiad wedi defnyddio'r confensiynau hyn:

- Dynodir ffigurau sydd wedi eu talgrynnu i sero â llinell doriad (-) mewn tablau. Oherwydd confensiynau talgrynnu, efallai na fydd y cydrannau unigol gyda'i gilydd yn rhoi'r cyfansymiau a ddangosir;
- 1999-2000 mae gwariant Swyddfa Cymru a'r grant i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wedi eu cynnwys mewn un bleidlais. Ymdrinnir â holl dderbyniadau'r Undeb Ewropeaidd fel derbyniadau cyfredol er y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu defnyddio ar gyfer gwariant cyfredol neu gyfalaf.